# Cyngor Caerdydd
# Llywodraethu Blynyddol
# Datganiad 2021/22

**CYNNWYS**


| | | |
|---|---|---|
| **Cwmpas Cyfrifoldeb** | **tudalen** | **3** |
| **Diben y Fframwaith** | **tudalen** | **3** |
| **Y Fframwaith Llywodraethu** | **tudalen** | **4** |
| **Y Broses Asesu a Chrynodeb** | **tudalen** | **4** |
| **Datganiadau Sicrwydd** | **tudalen** | **5** |
| • **Datganiad yr Uwch Dîm Rheoli** | **tudalen** | **5** |
| • **Datganiad y Rheolwr Archwilio a'r Farn Flynyddol** | **tudalen** | **7** |
| • **Datganiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** | **tudalen** | **9** |
| **Fframwaith Llywodraethu: Gwybodaeth Ategol** | **tudalen** | **12** |
| **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | **tudalen** | **29** |
| **Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg** | **tudalen** | **30** |
| **Ardystiad** | **tudalen** | **30** |

## Cwmpas Cyfrifoldeb

1. Mae Cyngor Dinas Caerdydd (y Cyngor) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n gywir, a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ei fusnes, a hwyluso'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

2. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am Awdurdod Harbwr Caerdydd. Y Cyngor yw'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro (y Gronfa Bensiwn) ac Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd (AIPC) ac ef yw'r Corff Atebol ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae gan Gyngor Caerdydd berchenogaeth lwyr ar bump is-gwmni a oedd yn masnachu yn 2021/22, un ohonynt yw Cardiff City Transport Services Ltd. (Bws Caerdydd). Hefyd mae gan y Cyngor fuddiant mewn cyfrwng at ddiben arbennig (CSC Foundry Limited) a lywodraethir gan Gydbwyllgor ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

3. Dogfennir y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) wrth ystyried meysydd cyfrifoldeb y Cyngor, ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn gyfrifol am lywodraethu.

4. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r fframwaith 'Darparu Llywodraethu Da yn Llywodraeth Leol' a ddatblygwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Fframwaith Llywodraethu a hefyd sut mae'n bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) (Diwygio) 2018.

## Diben y Fframwaith Llywodraethu

5. Mae'r Fframwaith Llywodraethu'n cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd y mae'r Cyngor yn cael ei gyfeirio a'i reoli ganddynt, ynghyd â'r gweithgareddau a ddefnyddia i fod yn atebol i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi sut y gwneir penderfyniadau a'r gweithdrefnau a ddilynir trwy gyfrwng rheolau, codau, ymarfer a phrotocolau.

6. Mae'r system rheoli mewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac fe'i dyluniwyd i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ond mae'n broses barhaus o nodi, blaenoriaethu a rheoli risg yn briodol.

7. Mae’r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn dogfennu sut rydym yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu da (fel y’u crynhoir yn Adran 4 y DLlB – Proses Asesu a Chrynodeb). Cymeradwywyd y Cod hwn yng nghyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad ar 11 Chwefror 2019 ac mae wedi’i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

## Y Fframwaith Llywodraethu

8. Mae’r Fframwaith yn cynnwys dwy egwyddor graidd a phum egwyddor ategol. Mae egwyddorion A a B yn treiddio i egwyddorion C i E ond mae llywodraethu da yn ddeinamig ac mae’r Cyngor wedi ymrwymo i wella llywodraethu yn barhaus trwy broses arfarnu ac adolygu.

***Egwyddorion craidd:***

A. Ymddwyn â gonestrwydd, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a pharchu rheolaeth y gyfraith.
B. Sicrhau ymgysylltiad agored a cynhwysfawr â’r rhanddeiliaid Egwyddorion Ategol:

Egwyddorion Ategol

C. Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
CH. Penderfynu pa ymyriadau sy’n angenrheidiol er mwyn cyflawni cymaint o’r canlyniadau a fwriedir â phosibl
D. Datblygu capasiti’r corff, yn cynnwys gallu ei dîm arwain a’r unigolion sy’n rhan ohono
DD. Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn
E. Rhoi arferion da ar waith yn ddidwyll, adrodd ac archwilio er mwyn cynnig atebolrwydd effeithiol

## Y Broses Asesu a Chrynodeb

9. Mae’r DLlB yn crynhoi’r asesiad o’r llywodraethu yn erbyn y fframwaith llywodraethu ac mae’n cynnwys tair elfen:

- Cafodd datganiadau gan yr Uwch Dîm Rheoli, y Rheolwr Archwilio a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (y 'Pwyllgor Archwilio') ei ailenwi'n 'Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Darparwyd ei farn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol)
- Dadansoddiad ategol a gysylltir â’r craidd yn ategu egwyddorion llywodraethu da sy’n cynnig barn sy’n seiliedig ar wybodaeth ategol a thystiolaeth
- Barn yr Uwch Dîm Rheoli ar broblemau llywodraethu sylweddol y Cyngor

10. Mae'r tair elfen uchod ynghyd yn cynrychioli asesiad o'r llywodraethu o safbwynt yr Uwch Dîm Rheoli a barn ar wahân y Rheolwr Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar sail eu rhaglenni gwaith nhw ac asesiad o'r system reoli fewnol.

11. Am ragor o wybodaeth a manylion, mae'r wybodaeth ategol wedi'i chysylltu ag egwyddorion (A-E) y fframwaith llywodraethu yn y DLlB ac yna ceir datgeliad agored gan yr Uwch Dîm Rheoli ynghylch y materion llywodraethu sylweddol sy'n effeithio ar y sefydliad fel camau gweithredu dros dro i'w rhoi ar waith a mynd i'r afael â nhw.

Mae'r diagram yn ffig. 1 yn dangos cydrannau'r asesiad hwn.

**Ffig 1.**




## Datganiadau Sicrwydd

12. Gwneir y datganiadau canlynol ar ddiwedd y flwyddyn wrth ystyried y wybodaeth ynghylch perfformiad, datgeliadau ac archwiliadau llywodraethu a chanfyddiadau'r adroddiadau rheoliadol gan aseswyr mewnol ac allanol y Cyngor.

## Datganiad yr Uwch Dîm Rheoli

13. Defnyddir cyfres o ddatganiadau sicrwydd uwch reolwyr fel mesur craidd o sicrwydd ar lywodraethu da o fewn pob cyfarwyddiaeth ac ar gyfer y Cyngor yn gyffredinol.

14. Fel Uwch Dîm Rheoli, rydym wedi cynnal adolygiad o'r ymarfer hunanasesu i gynnal sicrwydd bod y meysydd i'w hystyried yn parhau i fod y meysydd cywir i farnu'r sefydliad arnynt ac i fynd i'r afael â chamau a nodwyd gan ddatganiad llywodraethu blynyddol y llynedd yn ymwneud â'r pum ffordd o weithio. Nodwyd yn yr adolygiad hwn, er bod mwyafrif y datganiadau sicrwydd yn parhau i fod yn briodol, bod angen newid ffocws rhai datganiadau i nodi'n effeithiol rhannau cyfansoddol y pum ffordd o weithio a chenedlaethau'r dyfodol. Yn ogystal, mae Diogelu a Llywodraethu Gwybodaeth wedi'u hadolygu er mwyn sicrhau bod lefel uwch o gydymffurfio ar draws y Cyngor.

15. Rydym yn parhau i gymhwyso'r ymarfer hunanasesu fel prif fodd o fesur llywodraethu da ac mae hyn wedi'i ategu eleni gyda phob Cyfarwyddiaeth yn cael cynllun gweithredu sy'n nodi'r meysydd gwella allweddol. Mae Sesiynau Her yn parhau i gael eu cadeirio gan y Prif Weithredwr lle rhoddir ystyriaeth i'r safle sicrwydd presennol ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth.

16. Cynhaliwyd ein hymarfer asesu llywodraethu da yn ystod cyfnod hir o ansicrwydd yn bennaf oherwydd y pandemig sydd wedi arwain at leihau rhai gwasanaethau mewn rhai meysydd, galw ychwanegol a / neu'r angen i weithredu ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau. Rydym ni, fel Uwch Dîm Rheoli yn parhau i sicrhau bod yr ymarfer hunanasesu yn adlewyrchu'r realiti presennol o ddarparu gwasanaethau fel bod unrhyw faterion neu gamau gwella yn cael eu nodi.

17. Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi parhau i gyfarfod ddwywaith yn wythnosol ar gyfartaledd. Roedd adegau yn ystod 2021/22 lle gwnaeth yr Uwch Dîm Rheoli gwrdd yn fwy rheolaidd er mwyn sicrhau bod ymateb cyflym, corfforaethol, priodol a phwyllog i unrhyw faterion dybryd. Ffocws y cyfarfodydd hyn drwy gydol y flwyddyn oedd sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol, bod canlyniadau'n cael eu cyflawni a bod rheolaethau'n parhau i fod ar waith neu'n cael eu diwygio i adlewyrchu'r sefyllfa bryd honno.

18. Trwy gydol y flwyddyn, mae sylw Uwch Swyddogion wedi'i ganolbwyntio'n gadarn ar ymateb y Cyngor i'r pandemig a chynnal trefniadau cyfathrebu, gwneud penderfyniadau a rheoli effeithiol. Mae'r pandemig wedi effeithio ar wasanaethau gyda rhai yn gorfod chwilio am ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau tra bod rhai gwasanaethau wedi gorfod cau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Er bod Iechyd a Diogelwch wedi parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r rhai sy'n darparu ac yn derbyn gwasanaethau gan y Cyngor, roedd hyn ar y cyd â'r angen i gadw lefelau cryf o reolaeth lle'r oedd angen.

19. Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi ymgysylltu â'r broses hunanasesiad sicrwydd ar gyfer 2021/22. Manteisiodd yr Uwch Dîm Rheoli ar y cyfle i adolygu'r sefyllfa hanner blwyddyn a diwedd blwyddyn 2021/22, ac ystyriodd y corff o waith a gyflawnwyd dros y chwe mis diwethaf, gan gynnwys adlewyrchiad o ymateb parhaus y Cyngor i'r pandemig.

20. Mae'r Uwch Dîm Rheoli o'r farn bod Datganiad Sicrwydd diwedd blwyddyn 2021/22 yr Uwch Dîm Rheoli yn cynnig adlewyrchiad cywir a theg o aeddfedrwydd llywodraethu'r Cyngor am y flwyddyn yn gyffredinol. Roedd yr

asesiad diwedd blwyddyn hwn yn seiliedig ar yr aeddfedrwydd llywodraethu y gallem ei dystiolaethu o fewn pob Cyfarwyddiaeth yn erbyn y sefyllfa hanner blwyddyn, y perfformiad yn erbyn cynlluniau gweithredu cyfarwyddiaethau unigol a nodi unrhyw newid mewn sefyllfa.

21. Yn unol â hynny, mae'r Uwch Dîm Rheoli o'r farn bod y Cyngor, er gwaetha'r amgylchedd allanol heriol, yn nesáu at gymhwyso camau llywodraethu da ar draws y meysydd sicrwydd, gyda rhai enghreifftiau o 'wedi'i ymwreiddio' a 'cyfyngedig' mewn rhai meysydd sicrwydd mewn rhai cyfarwyddiaethau. Roedd yr asesiad hwn ar sail hunanasesiad yn defnyddio system farcio 5 pwynt yn amrywio o 'ddim eto ar waith' i 'cymhwysiad cyfyngedig', i 'cymhwysiad cymysg' 'cymhwysiad cryf' i 'wedi'i ymwreiddio'.

22. Mae'r asesiad hwn wedi tynnu sylw at gyfleoedd i adeiladu ymhellach ar y tri Cham Gweithredu ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y llynedd. Rydym yn cydnabod bod gwelliannau wedi'u gwneud ym meysydd perfformiad, cydymffurfiaeth a'r ffordd rydym yn gweithio ond rydym yn credu y gellir gwella ymhellach. Rydym yn parhau i arolygu'r dirwedd sicrwydd ac yn chwilio am unrhyw wendidau y mae angen mynd i'r afael â nhw drwy weithdrefnau adfer cadarn yn ogystal ag edrych i wella meysydd o gryfder. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cydnabod ei fod yn wynebu cyfnod o ansicrwydd hir o ran adfer gwasanaethau ac ymateb i lefelau cynyddol a gwahanol o alw ar draws y sbectrwm o wasanaethau sy'n cael eu cynnig. I gefnogi'r nodau hyn mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth i weithredu camau gweithredu ar gyfer gwella a chadw ffocws ar yr angen i flaenoriaethu camau ar gyfer gwella er mwyn gallu dangos tystiolaeth gref o gymhwyso ar draws pob maes wrth symud ymlaen.

23. Mewn perthynas â gwaith yr Uwch Dîm Rheoli yn 2021/22 gwnaethom barhau i fod yn berchen ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar y cyd, gwnaethom adolygu pob risg gorfforaethol yn chwarterol, a monitro cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r meysydd llywodraethu sylweddol.

24. Mae'r Prif Weithredwr yn parhau i bwysleisio bod angen mynd i'r afael â meysydd o wendid. Fel y nodwyd, mae'r cwpl o flynyddoedd diwethaf wedi cyflwyno her ac ansicrwydd mawr a bydd hyn yn parhau am y cyfnod sydd i ddod gan danategu pa mor bwysig yw cynnal y gwaith o gyflawni safonau llywodraethu a rheoli cyson ar draws yr holl gyfarwyddiaethau.

## Datganiad y Rheolwr Archwilio a'r Farn Flynyddol 2021/22

25. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) yn datgan bod 'rhaid i'r Prif Weithredwr Archwilio ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gellir eu defnyddio gan y sefydliad i arwain ei ddatganiad llywodraethu.' Mae'n rhaid i'r rhain fod yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o'r fframwaith llywodraethu, rheoli a rheolaeth risg. Hefyd mae'n rhaid iddynt gynnwys arfarniad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau wrth ymateb i risgiau o fewn y systemau llywodraethu, gweithrediadau a gwybodaeth.

26. Cafodd y farn hon ei pharatoi gan y Rheolwr Archwilio (Prif Weithredwr Archwilio at ddibenion y SAMSC) yn seiliedig ar ddarpariaethau'r SAMSC. Wrth baratoi a ffurfio'r farn hon, mae nifer o ffynonellau gwybodaeth, sicrwydd a mewnwelediad wedi'u hystyried, gan gynnwys:

- **Ymrwymiadau Archwilio Sicrwydd** – Mae'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg wedi'i gyflawni drwy ddull o sicrhau'r sicrwydd a'r gwerth ychwanegol mwyaf posibl. Mae'r cynllun archwilio yn ymatebol i risg ac wedi'i lywio gan wybodaeth archwilio a chan sicrwydd presennol, gwybodaeth gan Uwch Reolwyr, monitro gweithgarwch y Cyngor, strategaeth, risgiau a ffynonellau sicrwydd ehangach. Ar ôl cwblhau archwiliadau sicrwydd y llynedd o systemau newydd a sefydlwyd o ganlyniad i'r pandemig, yn ystod 2021/22 bu'r uwch dîm rheoli llawn yn rhan o archwiliad corfforaethol o gynllunio adferiad y gyfarwyddiaeth, a ddaeth i'r casgliad fod y Cyngor wedi ei leoli ei hun mewn ffordd sy'n ei alluogi i ymateb yn strategol i'r heriau sy'n ei wynebu ac y bydd yn eu hwynebu o ran adfer. Yng nghanol y pandemig, mae archwiliadau rheoli perfformiad a pharhad busnes a rheoli digwyddiadau wedi rhoi sicrwydd corfforaethol ar drefniadau llywodraethu a rheoli. Ar gyfer pob archwiliad, mae'r risgiau, y pwysau a'r blaenoriaethau presennol yn parhau i lywio cwmpas yr archwiliad a'r profion a gwblheir.

- **Ymgysylltiadau Archwilio Ymgynghoriaeth** - Yng nghyd-destun y pandemig parhaus, roedd y rhan fwyaf o'r gwaith ymgynghori archwilio yn ymwneud â dylunio a chymhwyso rheolaethau cadarn wrth weinyddu taliadau grant a rhyddhad Llywodraeth Cymru. Mae'r tîm wedi darparu mewnwelediad ac arweiniad ar feysydd rheoli wrth ddatblygu / newid prosesau, megis datblygu polisi mewn perthynas â Safon Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu.

- **Trafodaeth gyda'r Uwch Reolwyr** - Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolwr perthnasoedd chwarterol gyda Chyfarwyddwyr neu eu cynrychiolwyr, aeth y Rheolwr Archwilio i gyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli lle ystyriwyd eitemau sicrwydd, a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (Swyddog Adran 151) a'r Prif Weithredwr.

- **Adolygiadau Risg a Llywodraethu** – Mae Cofrestrau Risg a Datganiadau Sicrwydd Uwch Reolwyr sy'n sail i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn destun adolygiad archwilio rheolaidd, ac ymrwymiadau archwilio sicrwydd.

27. Yn seiliedig ar y rhaglen o waith archwilio a wnaed i asesu'r fframwaith a'r defnydd o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, y farn flynyddol ar gyfer 2021/22 yw ***effeithiol gyda lle i wella.*** Mae'r farn hon yn seiliedig ar lunio Cynllun Archwilio digonol, ac ar gydnabyddiaeth o'r pwysau sylweddol ar adnoddau yng nghyd-destun pandemig parhaus o ran galw a chyllidebau, a gafodd eu rheoli trwy ddiwylliant perfformio gwydn.

28. Mae'r farn archwilio yn cynnwys asesiadau o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, ac mae'n cynnwys gwerthusiad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau wrth ymateb i risgiau o fewn y systemau llywodraethu, gweithrediadau a gwybodaeth.

- Mae'r holl adolygiadau system sylfaenol a gynlluniwyd wedi'u cwblhau, ac fe ddaeth yr archwiliad o incwm a dyledwyr i ben yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.
- Yn unol â dull a gyfathrebwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cwblhawyd y rhan fwyaf o ymgysylltiadau archwilio llywodraethu corfforaethol yn ystod y flwyddyn, wedi'i ategu gan wasgariad o ymgysylltiadau archwilio sicrwydd ar lefel cyfarwyddiaeth.
- Cynhaliwyd y systemau safonol ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol a risgiau'r gyfarwyddiaeth yn ystod y flwyddyn, ac mae risgiau a oedd yn benodol i COVID-19 hefyd wedi parhau i gael eu cofnodi, monitro ac adrodd.
- Roedd rhaid i'r Cyngor weinyddu taliadau cymorth brys a chymorth grant ar ran Llywodraeth Cymru yn gyflym. Dros y flwyddyn, dosbarthodd y Cyngor swm sylweddol o arian grant a rhyddhad, a chynghorodd y Timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol y rheolwyr ar ddylunio systemau a gwiriadau gwrth-dwyll yn unol â gofynion y cynllun fel rhan o dîm amlddisgyblaethol, gan gyfrannu at wiriadau paru data drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol. Nid yw'r llawlyfr ôl-sicrwydd na'r gwiriadau a'r dadansoddiadau paru data wedi nodi achosion materol o dwyll neu wall hyd yma yng nghyd-destun gwerth taliadau, er bod nifer o adolygiadau achos yn parhau.

29. Ystyriwyd bod yr amgylchedd rheoli ar gyfer systemau ariannol craidd, ac ar gyfer mwyafrif yr archwiliadau yn gyffredinol (75%) yn ddigonol, a nodwyd barn archwilio 'effeithiol' neu 'effeithiol gyda lle i wella'. Rhoddwyd barn archwilio o 'annigonol ac angen gwelliant mawr' i 19 archwiliad, gan gydnabod yr angen am sylw i sicrhau rheolaethau cadarn, a rhoddwyd barn 'anfoddhaol' i un archwiliad (mewn perthynas ag Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd), sydd â set gytûn o gamau rheoli.

30. Mae Rheoli Gwastraff wedi bod yn faes lle mae cyfran uwch o farn archwilio andwyol wedi'i rhoi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Drwy'r gwaith archwilio yn y maes hwn, ac ymgysylltu â rheoli, cydnabyddir bod y sefyllfa'n parhau i wella. Mae sicrwydd a chymorth archwilio yn parhau i dargedu a monitro meysydd risg uchel.

## Datganiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

31. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2021/22, ystyrir mai barn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw bod gan y Cyngor, gan fwyaf, reolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu cadarn ar waith. Caiff risgiau strategol sy'n cynrychioli'r heriau gwirioneddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu eu nodi a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae enghreifftiau lle mae'r Pwyllgor yn parhau i fod â phryderon, a fydd yn cael eu hymgorffori yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23, yn cynnwys:

## Rheoli Cyllidebau

32. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cydnabod y pwysau ariannol parhaus sydd ar y Cyngor ac yn nodi, er bod y sefyllfa ariannol yn gytbwys ar y cyfan, y gwelodd rhai cyfarwyddiaethau penodol orwariant sylweddol, a bod angen gwella'r rheolaethau, a bod angen rhoi camau ar waith i reoli hynny mewn cyfarwyddiaethau i gyflawni'r cynigion arbedion cyllidebol a gyflwynwyd. Mae rheoli cyllidebau yn arbennig o berthnasol ar hyn o bryd o ystyried y pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth iddynt ymateb i'r pandemig parhaus a heriau a materion eraill sy'n dod i'r amlwg.

33. Cafwyd cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru eleni i liniaru effaith y pandemig ar gyllidebau, a bu cryn sylw ac ymdrech i gofnodi, gwirio a chyflwyno hawliadau i adennill gwariant cymwys sydd wedi cynyddu, ac incwm cymwys sydd wedi'i golli yn ystod yr argyfwng. Mae'r setliad i'r Cyngor am y flwyddyn i ddod gan Lywodraeth Cymru yn gynnydd sylweddol o ran arian parod o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, bu costau ychwanegol i'w hystyried, gan gynnwys cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn y Sector Gofal, ac ni fydd Cronfa Galedi 2022/23 o 1 Ebrill 2022.

34. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gadw at drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli cyllidebau ar ôl i'r cyllid hwn ddod i ben yn ystod 2022/23. Bydd y Pwyllgor yn craffu'n ofalus ar y trefniadau rheoli cyllideb dros y flwyddyn i ddod, drwy edrych ar ddefnyddio rheolaethau rheoli ac ymyriadau priodol, a bydd yn parhau i atgyfnerthu disgwyliadau ar gyfer cyflawni.

## Rheolaeth Fewnol

35. Mae sicrwydd ynglŷn â chydymffurfiaeth a rheolaeth yn hanfodol. Ers nifer o flynyddoedd bu cyfyngiadau parhaus ar adnoddau, ynghyd â thwf mewn poblogaeth a mwy o alw am wasanaethau cyhoeddus. Wrth i'r Cyngor wynebu heriau sylweddol yn y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau, mae'n parhau'n hanfodol nad yw rheolaethau mewnol yn cael eu hesgeuluso na'u hamharu arnynt, a bod rheolaethau cryf ar waith ar draws prosesau a systemau diwygiedig. Yn ogystal, mae'r pandemig wedi golygu bod angen addasu systemau, ac mewn rhai achosion dyluniad systemau newydd, er mwyn ymateb i flaenoriaethau newydd. Fe'n hysbyswyd am y lefel sylweddol o ymgynghoriad, cyngor a chyfarwyddyd a ddarparwyd gan y Timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol i gefnogi'r rheolwyr i gynllunio a chynnal rheolaethau cadarn wrth iddynt lywio blaenoriaethau a chyfrifoldebau newydd. Mae'r Pwyllgor wedi nodi'r risgiau cynhenid sy'n gysylltiedig â gofyniad y Cyngor i weinyddu a dosbarthu swm sylweddol o gyllid brys Llywodraeth Cymru yn gyflym eleni. Mae wedi bod yn bwysig i'r Pwyllgor gael sicrwydd perthnasol yn ystod y flwyddyn, a dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi cael sesiynau briffio ar y trefniadau ar gyfer rheolaethau ymlaen llaw, gwiriadau sicrwydd ar ôl dyfarnu a dilyniant a chanlyniadau'r achosion a nodwyd i'w harchwilio.

36. Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd uwch swyddogion i fod yn bresennol yn ei gyfarfodydd eleni, i gyfrif am eu darpariaeth o lywodraethu, rheoli risg a rheoli da. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi parhau i dderbyn manylion yr holl Archwiliadau Mewnol a gwblhawyd, a'r sgorau sicrwydd priodol. Eleni rydym

wedi arsylwi ar fylchau rheoli mewnol ynysig drwy adroddiadau o sicrwydd annigonol, ac un farn archwilio anfoddhaol. Er bod nifer y barnau Archwilio Mewnol anfoddhaol yn parhau'n isel, mae'n rhaid i'r rheolwyr sicrhau bod systemau rheoli mewnol cadarn ar waith a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodwyd yn brydlon.

37. Rydym wedi cynnal diddordeb agos ar gadernid rheolaethau mewn perthynas â'r swyddogaeth Rheoli Gwastraff. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ochr yn ochr ag atgyfeiriad ac ymchwiliad yr heddlu, cwblhawyd ymchwiliad eang i honiadau o dwyll ac mae gweithdrefnau disgyblu wedi dod i ben. Rydym wedi derbyn brîff cyfrinachol (ar 31 Mai 2021) sy'n cyfeirio at yr achosion disgyblu a'r canlyniadau, sy'n cysylltu â'r gwaith wedi'i dargedu a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol i wirio gweithrediad rheolaethau allweddol, rheoli risg a'r amgylchedd rheoli cyffredinol.

38. Cyfarfu'r Pwyllgor â'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am Reoli Gwastraff eleni, i drafod llywodraethu, rheoli mewnol a rheoli risg o fewn y gwasanaeth. Nododd y Cyfarwyddwr a'r Rheolwr Archwilio bod cynnydd cyson a pharhaus wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn yr amgylchedd rheoli mewnol, dan arweiniad yr uwch reolwyr. Hysbyswyd ein Pwyllgor fod mecanweithiau ar gyfer cyflawni a gweithredu ar gamau gwella, a bod perthynas ddwy ffordd adeiladol gydag Archwilio Mewnol, wrth gynllunio, ac ymateb i, waith sicrwydd. Rydym yn cydnabod y cynnydd a wnaed a bod angen sylw a sicrwydd rheoli parhaus.

39. Mae'r Pwyllgor yn derbyn rhestr o'r holl argymhellion Archwilio Mewnol a godwyd ac y cytunwyd arnynt, a gwelededd sylwadau rheoli a ddiweddarwyd tan y pwynt gweithredu. Er bod gan y Pwyllgor sicrwydd cyffredinol mewn cysylltiad â rheolaeth fewnol, rydym yn parhau i ofyn i swyddogion gyfrif am wasanaethau neu swyddogaethau lle nodwyd gwendidau o ran rheolaeth fewnol. Rydym yn parhau i herio unrhyw ddiffyg o ran stiwardiaeth a rheolaeth mewn cysylltiad ag arian ac asedau cyhoeddus ac yn mynnu camau gweithredu buan, cymesur gan y tîm rheoli. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23 a bydd yn monitro ei gynnydd a'i ganfyddiadau'n fanwl dros y flwyddyn i ddod.

**Gwydnwch Ariannol (yn cynnwys Rheoli'r Trysorlys)**

40. Ar adeg pan fo arian yn brin, bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried y fframwaith ar gyfer penderfyniadau ariannol. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar wydnwch ariannol ac, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi croesawu sicrwydd annibynnol o ran gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor gan ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, ymhellach i'r sicrwydd rheolaidd a ddarperir gan Archwilio Mewnol.

41. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i chwilio am sicrwydd bod proffil risg ac arferion rheoli'r trysorlys cadarn ar waith. Mae hyn yn waith hanfodol a fydd yn diogelu ac yn darparu gwerth gorau o ran benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor wedi, a bydd yn parhau i geisio sicrwydd bod gweithgareddau buddsoddi a benthyca yn briodol ac yn unol â'r Arferion, Strategaeth ac Adroddiadau a gyflwynwyd ar Reoli'r Trysorlys.

## Llywodraethu a Chydymffurfiaeth Ysgolion

42. Dros nifer o flynyddoedd, mae'r Pwyllgor wedi gofyn am adroddiadau rheolaidd gan uwch reolwyr yn y gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn dilyn pryderon a godwyd drwy adroddiadau Archwilio Mewnol ar reolaeth ariannol dda mewn gwasanaethau a fasnachir mewn ysgolion ac ar lywodraethu ysgolion. Rydym hefyd wedi bod yn gofyn am sicrwydd parhaus o ran y trefniadau i reoli balansau ysgolion, ac i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio.

43. O ystyried yr angen parhaus am sicrwydd llywodraethu ysgolion rheolaidd, trefnwyd ymgysylltu'n gynnar â'r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes newydd ar ôl iddo gael ei benodi, a buom yn trafod y trefniadau ar gyfer monitro rheolaethau a chynnydd gwelliannau llywodraethu mewn ysgolion. Dywedwyd wrthym fod camau wedi'u cymryd drwy neilltuo adnoddau a chyfrifoldebau newydd i staff er mwyn cefnogi cydgysylltiad a gwelliannau. Mae'r Cyfarwyddwr wedi mynychu ein Pwyllgor eto, a chawsom gyfrif o'r trefniant llywodraethu sydd ar waith i reoli gwahanol agweddau ar amgylchedd rheoli'r gyfarwyddiaeth, ynghyd â chydnabyddiaeth y ceisir gwelliannau pellach.

44. Mae ein Pwyllgor wedi nodi'r gwelliannau cadarnhaol a wnaed, fel a gydnabuwyd yn adroddiad diweddar Estyn, a byddwn yn parhau i gynnal diddordeb brwd yn y trefniadau llywodraethu a'r sicrwydd a dderbyniwn mewn cysylltiad ag ysgolion a'r portffolio addysg ehangach. Mae hyn ar sail dealltwriaeth y gall y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ofyn i'r rhai sy'n uniongyrchol gyfrifol am lywodraethu ar lefel ysgol unigol ddod i gyfarfod Pwyllgor os nad yw'r sicrwydd a roddir yn cael ei ystyried yn ddigonol.

45. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod na all y Cyngor bennu rheolau i ysgolion mewn cysylltiad â glynu wrth faterion contractio, er y gall gynnig cyngor ar arfer da. Mae'r maes hwn o ddiddordeb yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor ac rydym yn parhau i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu a defnyddio canllawiau arfer gorau i ysgolion er budd atgyfnerthu stiwardiaeth a rheolaeth ariannol.

## ii) Y Fframwaith Llywodraethu - Gwybodaeth Ategol

### A. Ymddwyn gyda gonestrwydd, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol.

46. Mae gofyn i bob Aelod a Swyddog y Cyngor gydymffurfio'n llawn â'r Codau Ymddwyn fel y'u nodwyd yn y Cyfansoddiad, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau penodol y Swyddogion a'r Aelodau ac yn egluro'r rhyngwyneb rhwng y rolau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Swyddogaethau ac isadrannau a ddirprwyir i Swyddogion
- Cod Ymarfer Aelodau
- Cod Ymarfer Cyflogeion
- Protocol Perthnasoedd Aelodau / Swyddogion
- Ymrwymiad Caerdydd – ar ôl eu hethol, mae'r Aelodau'n ei lofnodi sy'n tanlinellu eu dyletswyddau i'r Ddinas a'i dinasyddion

47. Y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yw'r Swyddog Monitro ac mae ganddo ddyletswydd benodol i sicrhau bod y Cyngor, ei Swyddogion a'r Cynghorwyr Etholedig yn arfer y safonau ymddygiad uchaf ym mhopeth a wnânt yn seiliedig ar Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 5, paragraff 24 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

48. Mae gan y Pwyllgor Safonau a Moeseg gyfrifoldeb i fonitro a chraffu ar safonau moeseg y Cyngor, ei Aelodau, ei gyflogeion ac unrhyw ddarparwyr cysylltiedig sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r Cyngor, ac adrodd wrth y Cyngor am unrhyw fater sy'n peri pryder. Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan berson annibynnol ac mae rôl y person hwnnw yn cynnwys pennu canlyniad cwynion yn erbyn Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig a monitro gweithdrefnau chwythu'r chwiban y Cyngor.

49. Yn 2021/22 hysbyswyd y Swyddog Monitro o gyfanswm o ugain cwyn sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau. Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ystyried deg o'r cwynion ac wedi penderfynu nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri'r Cod ar naw ohonynt, felly ni fyddai ymchwiliad pellach. Mae'r Cyngor yn aros i benderfynu ar y gŵyn sy'n weddill. Cafodd tri chwyn eu datrys yn anffurfiol gyda phum cwyn yn destun trafodaethau anffurfiol parhaus. Cafodd un gŵyn ei chyfeirio at y panel Gwrandawiadau a ganfu nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri'r Cod. Cafodd un achwynydd ei gyfeirio at yr Ombwdsmon.

50. Cyn gadael rôl Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg cyflwynodd y Cadeirydd a oedd yn gadael Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 i'r Cyngor llawn ar 21 Hydref 2021 gan amlinellu gwaith y Pwyllgor. Nododd yr adroddiad gamau mewn perthynas ag adolygu'r Polisi Chwythu'r Chwiban, gan barhau i arsylwi ar achosion y Cyngor a'r Pwyllgor a sicrhau bod hyfforddiant ar God Ymddygiad yr Aelodau yn ei le i'w gyflawni yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Hefyd, roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod arweinwyr grŵp yn cael eu cefnogi i sicrhau bod unrhyw ofynion o ran hyfforddiant yn cael eu bodloni mewn cysylltiad â'u dyletswyddau statudol newydd mewn perthynas ag Ymddygiad Aelodau. Mae'r Pwyllgor yn cytuno'n gryf bod cyflwyno ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor yn helpu'r Aelodau i ddeall rôl bwysig y Pwyllgor a'i waith; ac y byddai mwy o friffiau i'r Aelodau yn cael eu cyhoeddi yn ôl yr angen.

51. Mae'n angen i'r Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig gofrestru eu buddiannau personol yn unrhyw fusnes sy'n ymwneud â'r awdurdod a chydymffurfio â'r rheolau ar fuddiannau personol a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau. Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud eleni i sicrhau bod yr holl ffurflenni perthnasol yn cael eu llenwi gan yr holl Aelodau. Cyhoeddir yr holl fuddiannau personol a ddatgelir gan yr Aelodau ar wefan y Cyngor yn y wybodaeth ar broffiliau'r Aelodau. Mae Polisi'r Cyngor ar Fuddiannau Personol ac Ail Swyddi'r Swyddogion yn mynnu bod staff yn datgelu unrhyw fuddiant personol sydd yn neu a allai wrthdaro â'u dyletswyddau i'r Cyngor a'r holl swyddi eraill. Mae'r

polisi'n nodi bod rhaid i bob un o gyflogeion y Cyngor, dan y Cod Ymddygiad Cyflogeion, sicrhau nad yw ei fuddiannau preifat yn gwrthdaro â'i ddyletswyddau cyhoeddus, a chydymffurfio â rheolau'r Cyngor ar gofrestru a datgan buddiannau ariannol ac anariannol.

52. Mae Gwerthoedd Corfforaethol y Cyngor yn canolbwyntio ar degwch, bod yn agored a chydweithio. Mae'r Cyngor yn cefnogi diwylliant o ymddygiad sy'n seiliedig ar y gwerthoedd hyn sy'n llywio sut y caiff gweledigaeth hirdymor y Cyngor ei rhoi ar waith, yn ogystal â sut mae'r Aelodau a'r Swyddogion yn cyflawni eu rolau dydd i ddydd. Mae gwaith cynllunio corfforaethol a chyfarwyddiaethau datblygiad a pherfformiad personol wedi'u cyfuno â chyflawni gwerthoedd a blaenoriaethau corfforaethol.

53. Mae'r Siarter Strategaeth Gweithlu a Chyflogeion yn parhau i sicrhau bod gweledigaeth a gwerthoedd y Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol yn cyd-fynd â'i gilydd:

- Mae Siarter y Cyflogai yn nodi disgwyliadau'r holl staff (cyflogeion, rheolwyr ac uwch reolwyr) ac mae wedi ffurfio rhan o'r broses gosod amcanion ar gyfer adolygiadau personol

- Mae Strategaeth y Gweithlu'n ceisio sicrhau canlyniadau ar gyfer a chyda'r cyflogeion, o fewn diwylliant sy'n cefnogi gweithlu hyblyg, cymwys, cynwysedig ac amrywiol.

54. Mae'r Cyngor yn trin twyll, llygredd a chamweinyddu yn ddifrifol iawn ac mae'r strategaeth a'r polisïau canlynol yn atgyfnerthu hynny er mwyn arbed a rheoli achosion o'r fath

- Strategaeth Atal Twyll a Llygredd
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol
- Archeb Sefydlog Contract a Rheolau Caffael
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygru
- Polisi Atal Gwyngalchu Arian
- Polisi Diogelwch TGCh
- Polisi a Gweithdrefn Diogelu Data
- Polisïau AD ynghylch ymchwilio a disgyblu staff

55. Mae'r Strategaeth Atal Twyll a Llygredd wedi bod ar waith ers Gorffennaf 2019 gyda dros 5000 o staff a llywodraethwyr ysgol wedi ymgymryd â'r cwrs neu wedi mynychu hyfforddiant / gweithdai wyneb yn wyneb. Mae'r Cyngor yn parhau i gael ei gefnogi gan amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a rheoliadau sy'n cael eu hadolygu er priodoldeb, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â Rheolaeth Ariannol, Diogelu Data, Iechyd a Diogelwch, Cydraddoldeb a Diogelwch TG.

56. Yn ystod 2021/22, roedd gofyniad o hyd i'r Cyngor gynorthwyo â gweinyddu swm sylweddol o gymorth grant o fewn lleoliadau gofal cymdeithasol a busnes. Gweithiodd tîm amlddisgyblaethol o gydweithwyr o Gofal Cymdeithasol, Datblygu Economaidd, Ardrethi Busnes, Archwilio, Cyfrifon Taladwy, TG a

Llywodraethu Gwybodaeth yn agos gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod rheolaethau ymlaen llaw yn gadarn, yr ymchwiliwyd i anghysondebau ac yr adolygwyd taliadau. Mae dilysu a sicrwydd ar ôl talu wedi cynnwys:

- Archwiliadau â llaw o hawl / cymhwysedd, gan ddefnyddio gwybodaeth a gyflwynwyd ar y ffeil dalu, a gwybodaeth ffynhonnell agored.
- Cymryd rhan mewn dau ymarfer paru data er mwyn dilysu ymhellach.

57. Mae gan y Cyngor Bolisi Chwythu'r Chwiban ar waith a thrwy hwnnw, anogir staff a chontractwyr i nodi achosion o gamymddwyn neu ymddygiad anghyfreithlon yn y sefydliad, sy'n effeithio ar y cyhoedd ac eraill (gwneud datgeliad er budd y cyhoedd). Yn 2021/22, rhoddwyd gwybod am gyfanswm o dri achos chwythu'r chwiban i'r Swyddog Monitro.

58. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y weinyddiaeth ariannol (Swyddog A151) a threfniadau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor (SIRO). Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu rôl Prif Swyddog Ariannol Llywodraethau Lleol, sydd wedi'u nodi yng Nghod Rheolaeth Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) 2020.

59. Ar gyfer y flwyddyn 2021/22 mabwysiadodd CIPFA y Cod Rheoli Ariannol (RhA) yn ffurfiol. Ffocws y Cod yw gwella gwydnwch ariannol sefydliadau drwy ymgorffori safonau rheoli ariannol gwell. Yn anochel, parhaodd effaith Covid-19, yn ogystal â ffactorau geowleidyddol ac economaidd ehangach, i brofi'r gwydnwch ariannol hwnnw yn 2021/22. Bwriad y Cod Rheolaeth Ariannol (Cod RhA) yw cefnogi arfer da ym maes rheolaeth ariannol ac i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Mae'r Cod yn cyfieithu egwyddorion rheolaeth ariannol dda i gyfres o safonau y dylai Awdurdodau Lleol fesur eu hunain yn eu herbyn.

60. Yn ystod 2021/22 cynhaliwyd hunanasesiad yn erbyn y cod RhA gan Uwch Swyddogion Cyfrifeg a'r canlyniadau a gyflwynwyd i Swyddog Adran 151 i nodi cyfleoedd i wella. O ystyried yr ansicrwydd ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor, cytunodd Swyddog Adran 151 bod yr hunanasesiad wedi nodi tri maes a ddylai fod yn ganolbwynt yn y deuddeg mis nesaf. Yn gyntaf, lle mae data ar gael dylid ystyried cynyddu'r ystod o ddadansoddiadau sensitifrwydd addas wrth benderfynu ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Yn ail, bydd gwydnwch ariannol y Cyngor yn cael ei wella drwy gryfhau'r cysylltiad rhwng achosion Busnes a chynlluniau i wario ymhellach. Y trydydd argymhelliad oedd canolbwyntio ar wariant cyllidebau gwasanaethau o ran cynnal y lefel well o arbedion cyllidebol a gyflawnwyd ond hefyd nodi unrhyw faterion ariannol yn gyflym i gael amser i roi camau adferol ar waith.

61. Mae gofynion y Cod RhA a'r angen am dystiolaeth wedi bod yn ystyriaeth fawr o ran datblygiad strategaethau ariannol allweddol y Cyngor megis y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

**B. Sicrhau ymgysylltu agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid.**

62. Trwy ei Werthoedd Corfforaethol, mae'r Cyngor yn nodi ymrwymiad i fod yn "agored a gonest ynghylch y penderfyniadau anodd sy'n ein hwynebu, a rhoi'r cyfle i bobl ddweud eu dweud ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt a'u cymunedau." Mae ymgynghori, ymgysylltu a chydweithio â dinasyddion yn ganolog er mwyn cyflawni'r gwerth hwn a chânt eu cyflwyno fel a ganlyn.

63. Mae gwaddol y pandemig wedi golygu bod y rhan fwyaf o gyfarfodydd dal wedi bod angen cael eu cynnal o bell yn 2021/22. Mae cyfarfodydd wedi parhau'n agored i'r cyhoedd, ac eithrio pan drafodir gwybodaeth gyfrinachol neu a eithrir, yn unol â'r gyfraith. Parhaodd cyfarfodydd Llawn y Cyngor i gynnwys cyfle ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd ac mae Pwyllgorau Craffu'r Cyngor wedi gwahodd cyfraniadau gan randdeiliaid yn rhithiol at eu rhaglen graffu, trwy ymchwil ac ymarferion ymgynghori a chyfle uniongyrchol i drafod â'r Pwyllgorau. Yn ystod 2021/22, parhaodd nifer y cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgor a we-ddarlledwyd i gynyddu gan 50% pellach gan adeiladu ar gynnydd tebyg o'r flwyddyn flaenorol a oedd yn adlewyrchu'r calendr llawn o fusnes yn 2021/22, o'i gymharu â 2020/21.

| Data Gwe-ddarlledu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | **2021-22** |
| Nifer y Cyfarfodydd a We-ddarlledwyd | 37 | 54 | 105 | **155** |
| Nifer y Pwyllgorau (Mathau) a we-ddarlledwyd | 8 | 10 | 21 | **19** |
| Cyfanswm yr Oriau Gwe-ddarlledu | 95:15:44 | 126:50:24 | 202:36:54 | **269:39:22** |
| Nifer y bobl oedd yn gwylio'n fyw | 1674 | 1960 | 4594 | **3965** |
| Nifer y bobl sydd wedi gwylio trwy'r Archifau | 3376 | 6909 | 10963 | **13644** |
| Cyfanswm y bobl sydd wedi gwylio | 5050 | 8869 | 15557 | **17609** |

64. Cafwyd trafodaeth agored a her ar berfformiad a rheoli risg ac mae'r Uwch Dîm Rheoli yn adrodd ac yn adolygu bob tri mis, yna ceir herio a goruchwylio pellach yng nghyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio. Mae Grŵp Llywio Rheoli Risg yn bodoli er mwyn datblygu ac adolygu polisi rheoli risg a fframweithiau atebolrwydd ac i gynorthwyo'r UDRh wrth adnabod risgiau corfforaethol newydd neu sy'n dod i'r amlwg. Datblygwyd rôl Sicrwydd o fewn amgylchedd yr UDRh, lle mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn trafod agweddau ar y sicrwydd, er enghraifft diogelu, cydymffurfio â chraffu, rheoli perfformiad, canlyniadau a chynnydd ar argymhellion a wneir gan archwilwyr, cyrff a rheoleiddwyr mewnol ac allanol. Mae hyn yn parhau i dynnu sylw at y cysylltiadau rhwng y darnau sicrwydd hyn a chreu fersiwn mwy cydlynol o'r

darlun sicrwydd. Mae'r cyfarfodydd rhwng y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Aelodau Cabinet i gytuno ar gamau gweithredu sy'n deillio o drafodaeth agored ynghylch yr heriau o ran perfformio a darparu gwasanaethau wedi parhau am y rhan fwyaf o 2021/22.

65. Rhoddir cyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill roi gwybod i'r Cyngor beth yw eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir trwy Bolisi Sylwadau, Cwynion a Chanmol y Cyngor. Mae'n adlewyrchu'r arweiniad a roddir gan Bapur Polisi a Chanllawiau Model Llywodraeth Cymru ar Ddelio â Chwynion, yn ogystal ag arweiniad a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sydd bellach yn rhoi pwyslais mwy ar ddatrys cwynion yn brydlon. Caiff y Cabinet wybod bob blwyddyn am nifer y cwynion a ddaw i law.

66. Mae dinasyddion, cymunedau a phartneriaid yn parhau i gael eu cynnwys trwy raglen o ymgysylltu â dinasyddion, ymgynghori cyllidebol, arolygon Holi Caerdydd sy'n ceisio barn ar ystod o ddatganiadau Ansawdd Bywyd ac Ansawdd Gwasanaeth. Defnyddir allbwn y rhain i lywio cynigion a phenderfyniadau o ran blaenoriaethau a chynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae lle i wella o ran nifer y bobl sy'n mynychu'r sesiynau ymgysylltu hyn yn enwedig mewn perthynas â cheisio cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan.

67. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid sefydliadol y mae'r Cyngor yn atebol iddynt, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru ac Archwilwyr Allanol y Cyngor (Archwilio Cymru). Gwnaed ymdrechion hefyd i feithrin perthnasoedd agored ac effeithiol rhwng y Cyngor Sir a'r chwe Chyngor Cymuned yng Nghaerdydd trwy Siarter y Cynghorau Cymuned ("y Siarter"). Mae'n adlewyrchu'r Siarter model a gyflwynodd Llywodraeth Cymru ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n seiliedig ar gydraddoldeb partneriaeth rhwng y ddwy haen o lywodraeth leol.

68. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd yn cynrychioli partneriaeth statudol rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor i gyflawni Cynllun Lles y ddinas. Mae'r Cynllun Lles, sy'n ymateb i'r dystiolaeth yn yr Asesiad Lles yn canolbwyntio ar feysydd cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n gofyn am waith partneriaeth yn y bôn rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol, ac â dinasyddion Caerdydd. Cytunodd y BGC ar yr Asesiad Lles ym mis Mawrth 2022 a bydd y Cynllun Lles drafft yn cael ei ystyried ym mis Medi 2022 cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Cefnogir BGC Caerdydd gan drefniadau llywodraethu a chyflawni ar sail partneriaeth, ac maent yn adrodd yn ôl i'r BGC bob chwarter. Yn ystod y pandemig, mae BGC Caerdydd wedi cyfarfod yn fwy rheolaidd er mwyn arwain ymateb strategol cydgysylltiedig i faterion pwysig ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas. Ystyriodd BGC Caerdydd yr adroddiad blynyddol ar y Cynllun Lles ym mis Gorffennaf 2022.

## C. Diffinio deilliannau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

69. Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ar 5 Mai 2022, ffurfiwyd gweinyddiaeth newydd y Cyngor. Er mwyn dangos ei huchelgeisiau ar gyfer y ddinas, gosododd y weinyddiaeth raglen bolisi newydd ac ymrwymiadau cyflawni cysylltiedig ar gyfer y tymor trefol sydd i ddod, o'r enw ‘Cryfach, Tecach, Gwyrddach’. Mae hyn i'w gytuno / ei ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2022, ac mae'n nodi agenda polisi a rhaglen gyflwyno'r Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf, yn seiliedig ar yr ymrwymiadau canlynol i wneud Caerdydd:

- **Yn ddinas gryfach**, gydag economi'n creu ac yn cynnal swyddi sy'n talu'n dda, gyda system addysg sy'n helpu ein pobl ifanc i gyrraedd eu potensial, gyda thai da, fforddiadwy mewn cymunedau diogel, hyderus a grymus, i gyd yn cael eu cefnogi gan wasanaethau cyhoeddus effeithlon sydd ag adnoddau da.

- **Dinas decach**, lle gall pawb fwynhau cyfleoedd byw yng Nghaerdydd, beth bynnag fo'u cefndiroedd, lle mae'r rhai sy'n dioddef effeithiau tlodi yn cael eu diogelu a'u cefnogi, lle mae diwrnod teg o waith yn cael diwrnod teg o gyflog, a lle mae pob dinesydd yn cael ei werthfawrogi ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi hefyd.

- **Dinas werddach**, a fydd drwy ein rhaglen Caerdydd Un Blaned yn arwain ar ymateb i'r argyfwng hinsawdd, dinas sy'n dathlu ac yn meithrin bioamrywiaeth, gyda mannau agored o ansawdd uchel o fewn cyrraedd hawdd i orffwys a chwarae, sy’n gysylltiedig â dewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy cyfleus, hygyrch a diogel.

70. Lle mae 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' yn darparu esboniad clir o flaenoriaethau polisi'r weinyddiaeth, bydd fframwaith polisi'r Cyngor yn trosi'r rhain yn amcanion sefydliadol gyda cherrig milltir cyflenwi cysylltiedig, dangosyddion perfformiad allweddol a'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau cynnydd.

71. Mae'r Cynllun Corfforaethol, felly, yn chwarae rhan allweddol wrth drosi uchelgeisiau polisi'r weinyddiaeth yn amcanion sefydliadol clir. Yn y modd hwn, mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni, a sut y bydd yn trefnu ei hun i'w gyflawni. Yn unol â gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, caiff y Cynllun Corfforaethol ei lunio yn ôl Amcanion, Camau a Mesurau Perfformiad Lles. Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi'i osod ar lefel strategol ac yn cael ei gefnogi gan gynlluniau cyflenwi cyfarwyddiaeth, sy'n nodi'n fanylach sut y bydd amcanion y Cynllun Corfforaethol yn cael eu cyflawni, yn ogystal â sut y bydd busnes cyfarwyddiaeth yn cael ei ddatblygu.

72. Cytunwyd ar broses well ar gyfer datblygu a monitro’r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol gan y Cabinet ym mis Chwefror 2022 mewn ymateb i'r gofynion perfformiad newydd a roddir ar awdurdodau lleol gan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2022. Mae hyn yn cynnwys:

- Hunanasesiad Canol Blwyddyn sy'n cael ei ystyried gan y Cabinet ym mis Rhagfyr, yn dilyn ymgysylltu â'r Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad (PRAP). Mae hyn yn dechrau'r broses o ddiwygio'r Cynllun Corfforaethol.

- Sesiynau Her Thematig sy'n cael eu cynnull gan Amcan Lles bob mis Ionawr / Chwefror. Mae'r sesiynau her yn cael eu cadeirio gan yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformio ac yn cynnwys prif ddeiliaid portffolio'r Cabinet, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr perthnasol. Mae'r sesiynau her yn ystyried cynnydd a heriau o ran pob un o Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol, ac yn gyfle i ystyried blaenoriaethau, camau, Dangosyddion Perfformiad Allweddol a thargedau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

- Ymgysylltu â'r Panel Perfformiad bob mis Ionawr / Chwefror. Mae'r Panel Perfformiad yn caniatáu i Gadeirydd pob Pwyllgor Craffu:

  - Ystyried yr Asesiad Canol Blwyddyn a gwneud argymhellion ar gyfer gwella yn ogystal ag awgrymiadau polisi strategol i'w hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol

  - Datblygu Cynllun Corfforaethol; gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau, y camau, Dangosyddion Perfformiad Allweddol a thargedau y cynigir eu cynnwys o fewn y Cynllun Corfforaethol diwygiedig.

- Ymgysylltu â'r holl Bwyllgorau Craffu gan gynnwys y Pwyllgor Craffu PRAP fel rhan o graffu cyn penderfynu ar y Cynllun Corfforaethol ym mis Chwefror.

- Ystyriaeth ffurfiol gan y Cabinet a'r Cyngor ym mis Chwefror / Mawrth. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor ac mae hyn, fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, yn sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn cael ei ystyried yn ffurfiol gan yr holl aelodau etholedig.

73. Bydd datblygu'r Adroddiad Lles Blynyddol, sef hunanasesiad o berfformiad y Cyngor, yn cynnwys arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol y Cyngor, gyda rolau manylach ar gyfer Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd hyn yn cynnwys:

    - Hunan-werthuso perfformiad gwasanaeth, llywodraethu a heriau a blaenoriaethau ariannol cyfarwyddiaeth;

    - Sesiynau perfformiad a sicrwydd cyllideb gyda phob Cyfarwyddwr sy'n cael eu cynnull gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 i ystyried canfyddiadau hunanasesu cyfarwyddiaeth;

    - Sesiwn cynnydd a pherfformiad gyda'r Cabinet ac Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor;

- Y Panel Perfformiad, a gynullwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu PRAP, ac sy'n cynnwys Cadeiryddion pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor;

- Ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu PRAP;

- Ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;

- Ystyriaeth o'r Asesiad Diwedd Blwyddyn (yr Adroddiad Blynyddol Lles) gan y Cyngor.

74. Datblygwyd y Cynllun Corfforaethol ochr yn ochr â Chyllideb y Cyngor, a thrwy hynny sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cyd-fynd â chyflawni ei flaenoriaethau polisi. Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Gyllideb yn cael eu cymeradwyo ochr yn ochr â'i gilydd gan y Cyngor ym mis Chwefror o bob blwyddyn ariannol. Bydd y cynnydd yn erbyn yr amcanion presennol a nodir yn y Cynllun Corfforaethol yn parhau i gael ei fonitro a'i adrodd drwy Fframwaith Cynllunio a Pherfformio cryfach y Cyngor, a gymeradwywyd gan y Cabinet blaenorol ar 24 Chwefror 2022.

75. Arweiniodd yr ansicrwydd ariannol oherwydd y pandemig a'r rhagolygon economaidd at oedi yn y setliad cyllidebol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 a 2022/23. Felly, cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gynigion cyllidebol 2021/22 y Cyngor "Newid i Gaerdydd" rhwng 13 Ionawr 2021 a 10 Chwefror 2021 ac roedd yr ymgynghoriad cyllidebol ar gyfer cynigion cyllidebol 2022/23 ar gyfer y cyfnod 14 Ionawr 2022 i 6 Chwefror 2022. Gan edrych ymlaen at setliadau cyllidebol yn y dyfodol, bydd diweddariad cyllidebol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 14 Gorffennaf 2022 a fydd yn amlinellu'r amserlen gyllidebol gan gynnwys ymgynghoriad. Fel yr amlinellwyd o dan egwyddor B y DLIB hwn, gan sicrhau ymgysylltu agored a chynhwysfawr, defnyddiwyd nifer o fecanweithiau i sicrhau bod yr ymgynghoriad mor hygyrch â phosibl, ond mae angen gwelliannau o ran nifer yr ymgysylltiadau a gyflawnir. Roedd yr ymgynghoriad yn galluogi aelodau'r cyhoedd i ddweud eu barn ar y cynigion cyllidebol. Cyfrannodd at y penderfyniadau terfynol ar newid gwasanaethau, a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a werthfawrogir yn wyneb caledi parhaus.

76. Mae adeiladu ar ddull Strategaeth Cyllideb y Cyngor dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn allweddol i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd ddod. Nododd y Cyngor fwlch yn y gyllideb o £69.2 miliwn ar gyfer y cyfnod 2023/24 tan 2026/27. Mae'r rhagolygon dros y tymor byr yn edrych yn heriol iawn wrth i wasanaethau geisio gwella o effaith y pandemig wrth reoli'r cynnydd yn y galw am rai gwasanaethau ac adennill lefelau incwm a gollwyd mewn meysydd eraill fel lleoliadau diwylliannol ac arlwyo mewn ysgolion. Wrth edrych ymhellach ymlaen, bydd y Cabinet yn ystyried diwygio'r Diweddariad ar y Gyllideb ar 14 Gorffennaf 2022 a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y bwlch yn y Gyllideb. Mae'r tymor canolig hefyd yn destun pryder a manylodd Adroddiad Cyllideb 2022/23 ar yr heriau o ran adfer wedi'i pandemig ac ansicrwydd

economaidd sylweddol ar gyfer y dyfodol agos gyda'r anhawster o ran pennu a chyflawni arbedion cyllidebol o flwyddyn i flwyddyn. Bydd Strategaeth Cyllideb y gellir ei chyflawni yn parhau'n ddogfen allweddol i'w hadolygu ond bydd hyn yn gofyn am fonitro agosach fyth ac ail-lunio'r strategaeth o bosibl wrth i wasanaethau (a galw) esblygu i'w siâp a'u maint yn y dyfodol.

77. Wrth gyflawni'r agenda polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' bydd angen gweithredu cydlynol gan y Cyngor a'i bartneriaid. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC), a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor, yn dwyn ynghyd arweinwyr y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ac yn adeiladu ar y platfform hirsefydlog o waith partneriaeth yn y ddinas. Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wedi gosod mewn statud rôl ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gwasanaeth cyhoeddus gyhoeddi asesiad o les lleol, cynllun lles lleol ac adroddiadau cynnydd blynyddol. Mae BGC Caerdydd wedi cynhyrchu ei Asesiad Lles statudol, sy'n nodi sut mae Caerdydd yn perfformio ar draws saith canlyniad dinas y bartneriaeth. Cafodd yr asesiad hwn ei gymeradwyo gan BGC Caerdydd ar 9 Mawrth 2022 i'w gyhoeddi erbyn mis Mai 2022. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a ddarperir yn yr Asesiad Lles, mae'n ofynnol i BGC Caerdydd adolygu ei amcanion ar gyfer gwella lles Caerdydd a datblygu Cynllun Lles BGC diwygiedig ar gyfer 2023-27 erbyn 5 Mai 2023, a fydd yn nodi sut fydd gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r heriau tymor hir mawr sy'n wynebu'r ddinas. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag aelodau'r BGC i sicrhau bod y blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Lles yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a bennir yn 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' a bod trefniadau llywodraethu a chyflawni'r bartneriaeth yn cael eu hadolygu a'u hail-ffocysu er mwyn sicrhau eu bod yn barod i'w cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

78. Mae'r fframwaith polisi a chyflawni a ddiwygiwyd felly yn cael ei nodweddu gan y cydrannau allweddol canlynol:

- **Cynllun Corfforaethol:** Bydd Cynllun Corfforaethol 2023-26 yn nodi amcanion y Cyngor er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r weinyddiaeth.

- **Strategaeth y Gyllideb:** Bydd Strategaeth y Gyllideb y Cyngor yn cael ei hailweithio i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r weinyddiaeth.

- **Gwaith Cynllunio a Chyflawni'r Bartneriaeth**: Bydd safle polisi'r Cyngor yn llywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, a fydd yn cael ei lansio ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn Hydref 2022, ac a gaiff ei ystyried gan y Cyngor a holl aelodau'r BGC erbyn mis Ebrill 2023.

- **Y Fframwaith Rheoli Perfformiad:** Monitrir y broses o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol drwy fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor.

## CH. Pennu'r ymyriadau y mae eu hangen i optimeiddio'r gwaith o gyflawni'r deilliannau a fwriedir.

79. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, caiff pob penderfyniad gan y Cabinet a'r Cyngor eu hategu gan adroddiadau ysgrifenedig gan Swyddogion ar oblygiadau cyfreithiol, AD, eiddo ac ariannol y penderfyniad. Hefyd, mae angen yr adroddiadau hyn i amlinellu'r canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, ymgynghoriadau aelodau, y risgiau allweddol a'r camau gweithredu amgen sydd ar gael.

80. I fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion lles a datganiad lles yn rhan o ddatblygiad y Cynllun Corfforaethol. Fel y cyfeiriwyd ato yng Nghyfarfod Cyngor Mawrth 2022 mae'r Cynllun Corfforaethol yn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei hystyried yn barhaus, gyda ffocws ar ystyried y 5 ffordd o weithio ar gam cynnar y gwaith o ddatblygu polisi. Anogir datblygu polisi, ar draws y sefydliad, i ystyried:

- **Hirdymor:** Y tueddiadau sy'n effeithio ar Gaerdydd heddiw ac yn y dyfodol.
- **Atal:** Ymyrryd yn gynharach i atal problemau sy'n effeithio ar ddinasyddion rhag digwydd neu waethygu.
- **Cynnwys Pobl:** Ymgysylltu â dinasyddion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed yng nghymdeithas.
- **Integreiddio:** Gweithio ar draws ffiniau i gyflawni agenda bolisi'r weinyddiaeth ar gyfer y ddinas.
- **Cydweithio:** Gweithio gydag eraill i gael mwy o effaith.

81. Mae'r Cyngor yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i hunanasesu cynnydd yn erbyn Amcanion Lles, gan gynnwys:

- **Cynnydd yn erbyn Mesuriadau Perfformiad Allweddol y Cyngor** – Nodir nifer o fesuriadau perfformiad yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor sy'n helpu i ddangos y cynnydd a wnaed i gyflawni'r Amcanion Lles. Pan yn berthnasol, rhoddir targedau yn erbyn y mesuriadau perfformiad hyn i ddangos lefel y cyrhaeddid a ddymunir. Neilltuir statws CMG i fesuriadau perfformiad: GWYRDD pan fo'r canlyniad yn bwrw'r targed neu'n rhagori arno; MELYN pan fo'r canlyniad o fewn 10% o'r targed, a CHOCH pan fo'r canlyniad yn fwy na 10% o'r targed.
- **Cynnydd yn erbyn y Camau ym mhob Amcan Lles** - Gwnaeth y Cyngor gynnwys nifer o gamau yn y Cynllun Corfforaethol i helpu i gyflawni'r Amcanion Lles. Mae monitro cynnydd y Camau hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r hyn a gyflawnwyd a lle mae angen mwy o waith.
- **Adroddiadau Archwilio** – Mae'r Cyngor yn destun nifer o archwiliadau gan gyrff rheoleiddio gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn (Addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae eu canfyddiadau'n helpu'r Cyngor i asesu meysydd perfformiad cryf, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen gwella.

- **Arolygon ac Adborth Dinasyddion** - Mae arolwg blynyddol Holi Caerdydd, yn ogystal â gwaith ymgynghori ac ymgysylltu mwy penodol, yn rhoi cyfle i ddinasyddion Caerdydd rannu eu barn ar amrywiaeth eang o wasanaethau'r Cyngor. O hyn mae modd nodi meysydd perfformiad cryf, ynghyd â'r meysydd hynny lle teimla dinasyddion Caerdydd fod angen i'r Cyngor wella. Yn yr un modd, mae cwynion a chanmoliaethau'n ffynhonnell wybodaeth werthfawr o ran perfformiad, ac mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ystyried gan y Cabinet ochr yn ochr â'r Adroddiad Cwynion Blynyddol.
- **Monitro Cyllid** – Adroddiad Alldro a Gwaith Monitro Cyllidebau'r Cyngor
- **Adborth gan Bwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** - Mae'r Cyngor yn ymateb i faterion ac argymhellion sy'n cael eu codi gan y Pwyllgorau Craffu, sy'n helpu i lywio gwelliant mewn perfformiad.
- **Risg** - Mae Risgiau Corfforaethol a Chyfarwyddiaethau'r Cyngor yn cael eu hystyried fel rhan o ddarlun cynhwysfawr o berfformiad, ac mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei baratoi a'i ystyried gan y Cabinet ochr yn ochr ag Adroddiad Risg Corfforaethol Blynyddol y Cyngor. Drwy adolygu'r wybodaeth hon gall y Cyngor ddatblygu darlun cytbwys o daith wella'r Cyngor dros y flwyddyn.

82. Drwy ddefnyddio'r wybodaeth hon, gall y Cyngor fonitro cynnydd ond hefyd nodi meysydd lle mae gwelliant. Mae gan y Cyngor hefyd drefn perfformiad ac atebolrwydd gadarn sy'n cynnwys llywodraethu gwleidyddol ehangach y Cyngor. Wrth ddatblygu'r hunanasesiad o berfformiad, cynhaliwyd y camau canlynol i sicrhau asesiad llawn a chytbwys:

    - Dadansoddiad o Berfformiad y Gyfarwyddiaeth
    - Sesiynau Sicrwydd a gynullwyd gan y Prif Weithredwr gyda phob Cyfarwyddwr
    - Sesiynau Sicrwydd, a gynullwyd gan y Cabinet, gyda'r Prif Weithredwr ac Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor
    - Adolygiad o'r Panel Perfformiad, a gynullwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad, ac sy'n cynnwys Cadeirydd pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor.
    - Ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad

83. Trwy ddefnyddio'r wybodaeth hon, gall y Cyngor nodi meysydd gwella a dathlu llwyddiant, a hefyd nodi meysydd lle na fu'r perfformiad cystal, ac felly'r meysydd sydd angen mwy o sylw.

84. Yn ystod 2021/22 arolygwyd Gwasanaeth Addysg y Cyngor gan Estyn. Daeth yr arolwg i'r casgliad bod Caerdydd wedi dangos gwelliant cyson a chynyddol o ran ansawdd ac effeithiolrwydd ei gwasanaeth addysg. Nododd Estyn bedwar argymhelliad ar gyfer gwella, a thri maes ble gwahoddodd Gyngor Caerdydd i baratoi astudiaethau achos fel y gellid rhannu'r meysydd hynny o ymarfer rhagorol. Bydd camau i adeiladu ar y cryfderau a nodwyd yn yr adroddiad ac i fynd i'r afael â'r argymhellion ar gyfer gwella yn cael eu rhoi yng

Nghynllun Cyflawni 2022/23 y Gyfarwyddiaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a bydd yn cael ei fonitro'n ofalus drwy brosesau gwerthuso perfformiad systematig.

85. Fel y nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y llynedd, bu cynnydd yn y cyfathrebu â staff gan y Prif Weithredwr i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf wrth i effeithiau'r pandemig fynd a dod drwy gydol y flwyddyn. Parhaodd hyn i 2021/22 wrth i rai gwasanaethau ddychwelyd i lefel o normalrwydd tra bod eraill wedi parhau'n rhithiol. Er mwyn sicrhau yr ymgynghorwyd â staff, a'u bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o wneud penderfyniadau, defnyddiwyd nifer o sianeli cyfathrebu gan gynnwys Diweddariad y Prif Weithredwr, y Briff Craidd, negeseuon Gwybodaeth i Staff, yr App Staff, a DigiGov (system AD y Cyngor).

86. Mae'r gwaith o ymgynghori ar benderfyniadau drafft sy'n deillio o gynigion cyllidebol yn drwyadl ac mae'r effaith ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth yn ystyriaeth bwysig. Mae cynnwys dinasyddion wedi parhau i fod yn ddull pwysig o nodi a dylunio gwasanaethau i fodloni anghenion a disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion yng Nghaerdydd yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllidebol. Er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn yn seiliedig ar brosiectau, mae'r Cyngor wedi datblygu templed Achos Busnes gan ddefnyddio "Model Pum Achos" Swyddfa Masnach y Llywodraeth fel yr argymhellir gan Drysorlys EM i'w defnyddio gan gyrff y Sector Cyhoeddus. Roedd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 yn cyfeirio at brosiectau penodol a fyddai'n cael eu hystyried ar gyfer Ystyriaeth Gyllidebol 2023/24 ar ôl cwblhau Achos Busnes llawn cadarn.

87. Mae Strategaeth Cyllideb y Cyngor yn seiliedig ar ddull cyllidebu cynyddrannol lle caiff cyllidebau i raddau helaeth eu llywio gan flaenoriaethau corfforaethol a siâp gofynnol y sefydliad yn y dyfodol. Cafodd y themâu ar gyfer arbedion yn Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2022/23 eu categoreiddio fel Effeithlonrwydd a Chynhyrchu Incwm ac roedd yn adlewyrchiad o'r setliad Cyllideb gwell na'r disgwyl ond hefyd yn adlewyrchu'r effaith ar Wasanaethau o ganlyniad i'r pandemig. Fel yr adroddwyd y llynedd, bu hyder cynyddol wrth gyflwyno arbedion gan ganolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd yn bennaf cyn dechrau'r Flwyddyn Ariannol dan sylw yn 2021/22 a 2022/23. Mae lefel is o gynigion arbedion yn parhau yn gysylltiedig â chynhyrchu incwm ac mae hyn yn adlewyrchu'r effaith ar lawer o'r gwasanaethau hynny yn ystod ac ar ôl y pandemig, ond lle mae cyfleoedd yn codi maen nhw'n parhau i gael eu cymryd.

88. Penderfynodd Cardiff City Transport Services Ltd (Bws Caerdydd), un o'r is-gwmnïau sydd ym mherchenogaeth lwyr y Cyngor, gyfethol dau gyfarwyddwr anweithredol annibynnol sydd â sgiliau profedig mewn gwasanaethau llywodraethu a thrafnidiaeth. Yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2021, cytunodd y Cyngor y dylid ymestyn cyfnod y ddwy swydd Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol ymhellach am gyfnod o 20 mis tan fis Hydref 2022 yn dilyn etholiadau'r Cyngor ym mis Mai 2022 i alluogi'r ddau unigolyn i barhau i gyfrannu eu sgiliau a'u harbenigedd priodol at waith y Bwrdd a'r Cwmni yn ystod y pandemig Covid-19 parhaus a'r effeithiau ailstrwythuro. Bydd unrhyw broses recriwtio yn dechrau yn haf 2022.

89. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2020 cytunwyd ar becyn o gymorth hyfywedd ariannol gan gynnwys ychwanegu ecwiti a dod yn gyflogwr statudol ar gyfer cynllun pensiwn y Cwmni. Fel rhan o hyn, cynhaliwyd yr ail gyfran o chwistrelliad ecwiti o £6.6 miliwn yn 2021/22 i gryfhau'r fantolen. Gweithiodd y Cyngor, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, yn agos gydag Ymddiriedolwyr y Gronfa Bensiwn i gwblhau prisiad teirblwydd y gronfa yn llwyddiannus fel ar 31 Mawrth 2021 a datrys nifer o faterion etifeddiaeth. Cydnabyddir bod bwrdd y cwmni a'r tîm rheoli newydd yn gwneud cynnydd sylweddol yng ngoleuni effeithiau sylweddol ar y diwydiant bysus ledled Cymru gan gynnwys costau cynyddol, prinder gyrwyr a gostyngiadau mewn nawdd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar newidiadau i'r diwydiant bysus fel rhan o bapur gwyn arfaethedig, allai fod â goblygiadau sylweddol i gwmnïau Bysus Trefol a'r gwasanaethau hanfodol sy'n cael eu darparu. Bydd angen i'r cwmni ystyried goblygiadau hyn ar wasanaethau bysus ledled y ddinas fel rhan o amcanion ehangach cyflenwi gwasanaethau.

90. Yn ystod 2021/22, cyflwynwyd cais am wybodaeth i'r holl is-gwmnïau a ofynnodd gwestiynau am y trefniadau llywodraethu perthnasol oedd yn eu lle. Bydd hyn yn llywio hunanasesiad a ddefnyddir i nodi unrhyw gyfleoedd gwella gan gynnwys i'r rhai sy'n ymgymryd â'r rôl cyfranddalwyr.

**D. Datblygu capsiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo.**

91. Mae'r cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ac o ran awdurdod wedi eu nodi yn glir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae hyn yn disgrifio rolau a pherthnasoedd o ran gwneud penderfyniadau rhwng y Cyngor Llawn, y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau Anweithredol eraill. Mae hefyd yn manylu ar benderfyniadau a ddirprwywyd i uwch swyddogion drwy'r haenau rheoli gwahanol.

92. Y Cabinet yw'r rhan o'r Cyngor sy'n gyfrifol am wneud rhan fwyaf o'r prif benderfyniadau. Mae'r Cabinet yn cynnwys yr Arweinydd a etholir gan y Cyngor a hyd at naw Aelod Cabinet portffolio arall y mae'n eu hethol i'w cymeradwyo gan y Cyngor. Ar gyfer 2021/22, roedd y Cabinet yn cynnwys yr arweinydd a naw cynghorydd arall, ond mae'r ddeddfwriaeth bellach yn caniatáu i Aelodau Cabinet rannu swyddi ac mae hynny wedi'i ystyried ar gyfer 2022/23 gyda dau bortffolio yn cael eu rhannu. Mae'n rhaid i'r Cabinet wneud penderfyniadau yn unol â pholisïau cyffredinol a chyllideb y Cyngor. Os yw'n dymuno gwneud penderfyniad nad yw'n rhan o'r gyllideb na'r fframwaith polisi, mae'n rhaid ei gyfeirio at y Cyngor llawn i wneud penderfyniad.

93. Ni newidiwyd strwythur uwch reolwyr y Cyngor ar gyfer 2021/22. Dirprwywyd y cyfrifoldeb statudol dros y Gwasanaethau Cymdeithasol i Gyfarwyddwr

Corfforaethol Pobl a Chymunedau. Mae rolau statudol Swyddog A151 (Cyllid) a'r Swyddog Monitro yn parhau i gael eu rhyddhau gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau) a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, yn y drefn honno.

94. Nod y Cyngor yw sicrhau bod gan Aelodau a Swyddogion y sgiliau, y wybodaeth a'r capasiti i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac mae'n cydnabod y pwysigrwydd o gael pobl gymwys, sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Mae pob Aelod newydd yn mynychu rhaglen sefydlu i'w gyflwyno i'r Cyngor a'i werthoedd, ei amcanion, ei bolisïau a'i weithdrefnau. Cynhaliwyd gwaith paratoi yn ystod 2021/22 i sicrhau bod pecyn hyfforddi Aelodau cyflawn yn barod i'w gyflwyno ar ôl etholiadau 2022. Roedd nifer y cynghorwyr hefyd yn cynyddu o 75 i 79 a nifer y cynghorwyr newydd a etholwyd ym mis Mai 2022.

95. Mae pob swyddog newydd yn cyflawni lefel sefydlu briodol sy'n cynnwys cyflawni cyfres o fodiwlau hyfforddiant e-ddysgu gorfodol. Mae gan bob modiwl hyfforddiant gorfodol ei ddyddiad targed ei hun y mae'n rhaid cydymffurfio'n llawn ag ef. Mae Rhaglen Rheolwyr Caerdydd fewnol yn arwyddocâd o ymrwymiad i sicrhau mwy o ddysgu a datblygu ar gyfer staff â chyfrifoldebau rheolwr llinell. Mae'r rhaglen yn parhau i gael ei chynnig yn ehangach ar draws y corff swyddogion heb y gofyniad i sefyll cymhwyster lefel 3 ffurfiol SARh.

96. Gwerthusir perfformiad yn bennaf trwy broses Perfformiad Personol y Cyngor, sy'n cynnig fframwaith i gyflogeion a rheolwyr drafod perfformiad ac ymddygiad yn y gweithle yn ogystal â nodi anghenion dysgu a datblygu. Mae'n galluogi cyflogeion i ddeall yn glir eu rolau, eu cyfrifoldebau a'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt a hefyd yn rhoi dealltwriaeth glir o sut mae eu swydd a'u hymdrechion yn cyfrannu at amcanion y Cyngor. Mae Adolygiadau Personol Aelodau hefyd ar waith i'w helpu i ddiweddaru eu gwybodaeth a dysgu sgiliau newydd pan fo'n ofynnol, i fod yn fwy effeithiol wrth gefnogi eu cymunedau. Mae gan Academi Cyngor Caerdydd nifer o raglenni a chyrsiau dysgu a datblygu y gellir eu cyrchu a'u cyflwyno o bell.

97. Mae iechyd a lles y cyflogeion yn flaenoriaeth yn Strategaeth Gweithlu Caerdydd. Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r Addewid 'Amser i Newid', mae wedi cael ei nodi'n Gyflogwr Hyderus gyda Phobl Anabl, wedi llofnodi'r Siarter Marw i Weithio ac wedi cyflawni Gwobr Arian y Safon Iechyd Corfforaethol.

98. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r Adroddiad Lles Blynyddol nesaf ym mis Medi 2022, os caiff ei gymeradwyo gan y Cyngor, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae hwn yn rhoi gwerthusiad cryno ôl-weithredol o berfformiad 2021/22 ac yn nodi meysydd ffocws wrth symud ymlaen.

## DD. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

99. Mae rheoli risg yn rhan ganolog o'r gwaith o wneud penderfyniadau strategol ac yn elfen allweddol o reoli busnes, cynigion y gyllideb, strategaeth y gyllideb,

ac ystyriaethau rhaglenni a phrosiectau. Cedwir Cofrestr Risgiau Corfforaethol (CRC) ac fe'i hadolygir gan yr UDRh bob tri mis er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys y prif risgiau i'r weledigaeth, yr amcanion a'r blaenoriaethau corfforaethol. Mae Map Risgiau Corfforaethol wedi ei defnyddio trwy gydol 2021/22 i gynnig portread didwyll o statws y risgiau corfforaethol ac i gynorthwyo ymateb cymesur gan y tîm rheoli.

100. Parhaodd Hyrwyddwr Risgiau Aelodau enwebedig, Hyrwyddwr Risgiau Uwch Swyddogion a rhwydwaith o Hyrwyddwyr Risgiau Cyfarwyddiaethau i gefnogi'r Strategaeth a Pholisi Rheoli Risgiau. Mae'r broses wedi ei chynllunio i sicrhau perchnogaeth glir o'r risgiau a nodir, a adolygir ac a ddygir ymlaen yn systematig bob tri mis ariannol. Mae tuedd gynyddol wedi bod i amlygu dyddiadau targed ar gyfer gweithredoedd risg unigol ar gyfer pob maes o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a byddwn yn edrych ar ymestyn hyn ar draws yr holl risgiau Corfforaethol yn y flwyddyn nesaf.

101. Cynlluniwyd pum Pwyllgor Craffu sefydlog y Cyngor i gynorthwyo'r Cabinet i ddarparu gwasanaethau hygyrch, effeithlon ac effeithiol ar gyfer dinasyddion. Ar gyfer y flwyddyn 2021/22, roedd modd i'r Pwyllgorau Craffu gwrdd drwy gydol y flwyddyn. Cynhaliwyd 51 o gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn ddinesig 2021/22.

102. Mae Cyfarfodydd Craffu yn craffu cyn penderfynu, monitro ac adolygu polisïau a lansio ymholiadau manwl er mwyn helpu'r Cabinet i ddatblygu ac adolygu polisïau a gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion a gyflwynir gerbron y Cabinet yn dilyn Ymholiadau Craffu yn cael eu derbyn yn llawn. Mae nifer o weithgareddau cydweithredol y Cyngor yn cael eu llywodraethu gan Gyd-bwyllgorau y gellir eu nodi ar wefan y Cyngor.

103. Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheolaeth fewnol a nodir yn y tri datganiad a geir yn yr adroddiad hwn gan y Rheolwr Archwilio, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Uwch Dîm Rheoli yn y drefn honno.

104. Arweiniodd y pandemig at ymgysylltu yn amlach ar Iechyd a Diogelwch rhwng Aelodau Etholedig penodedig, Cynrychiolwyr yr Undeb a Swyddogion perthnasol y Cyngor. Cyfarfu'r Fforwm Iechyd a Diogelwch bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod y canllawiau diweddaraf ar gael ac yn cael eu gweithredu'n briodol ar gyfer pob un o'r gwahanol wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

## E. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

105. Nod y Cyngor dal i fod yw sicrhau bod yr holl adroddiadau ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn cael eu hysgrifennu mewn dull teg, cytbwys a dealladwy. A dal i fod mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi gwybodaeth lawn a chyflawn i ddangos didwylledd clir heb fod yn rhy drwm neu'n or-gymhleth.

106. Un o nodau eraill y Cyngor yw sicrhau ei bod yn hawdd i'r Cyngor a'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth a'i defnyddio. Mae'r Cyngor lle bo'n ymarferol wedi edrych i gyhoeddi gwybodaeth ymlaen llaw yn hytrach nag aros am Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Cyngor yn ystyried y cynllun cyhoeddi enghreifftiol a amlinellir gan y Comisiynydd Gwybodaeth sy'n nodi'r dosbarthiadau o wybodaeth a ddylai fod ar gael fel mater o drefn. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw wedi cydymffurfio'n llawn â'r cynllun cyhoeddi enghreifftiol oherwydd rhesymau ymarferol fel capasiti a rhwyddineb cael gafael ar wybodaeth. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi diwygio ei gynllun cyhoeddi enghreifftiol yn ddiweddar a bydd y Cyngor yn adolygu ei sefyllfa yn erbyn y disgwyliadau newydd ac yn ceisio cadw at y disgwyliadau a nodir yn y ddogfen yn well.

107. Mae Adroddiad Lles Blynyddol y Cyngor yn arfarnu perfformiad, gan grynhoi canfyddiadau nifer o adroddiadau ar berfformiad, gan gynnwys mesurau ac arfarniadau cyflawniad corfforaethol yn erbyn Cynllun Lles Uchelgais Prifddinas a'r amcanion a'r gweithgareddau y mae'r Cyngor yn eu cyflwyno fel rhan o'r trefniadau Partneriaeth (BGC).

108. Asesiad o Lywodraethiant y Cyngor yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol mewn perthynas â 'Darparu Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol' fframwaith CIPFA / SOLACE, fel yr amlinellir yn yr Asesiad, y Broses a'r Grynodeb. Mae effaith barhaus y pandemig wedi cael effaith ar ddarparu gwasanaethau ar adegau lle'r oedd y cyfraddau haint yn uchel a chyfnodau ysbeidiol o normalrwydd. Mae'r angen am atebion adweithiol mewn rhai gwasanaethau a modelau cyflenwi amgen mewn meysydd eraill wedi'u hystyried wrth benderfynu ar Ddatganiadau Sicrwydd Uwch Reolwyr (DSUR). Mae gan yr Uwch Dîm Rheoli gynllun gweithredu sy'n cynnwys materion llywodraethu sylweddol ac mae'r cynllun hwn yn datgan yn agored y prif broblemau llywodraethu sydd angen sylw yn dilyn yr adolygiad DSUR. Mae Cynllun Gweithredu y DLlB ar gyfer 2021/22 yn ogystal â 2022/23 wedi'u cynnwys yn yr adran ganlynol.

109. Ym mis Mai 2021, cyfarfu'r Cyngor i sefydlu Pwyllgorau: eu maint, eu cylch gorchwyl a dosrannu seddau. Parhaodd y rhan fwyaf o gyfarfodydd drwy sianeli rhithwir, ond mae technoleg cyfarfodydd hybrid wedi'i datblygu gyda'r cyfarfodydd hybrid cyntaf yn cael eu cynnal ym mis Mehefin 2022. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Bwyllgor y Cyfansoddiad ac mae'n nodi cylch gorchwyl pob Pwyllgor a'r penderfyniadau y gall pob un o'r Pwyllgorau hynny eu cymryd. Mae nifer o Bwyllgorau wedi eu penodi gan y Cyngor i ddarparu gwasanaethau rheoleiddio a chraffu ac maent yn paratoi adroddiadau blynyddol ar eu perfformiad a'u canfyddiadau.

110. Cyn darparu'r gwasanaethau trwy drydydd partïon neu trwy drefniadau cydweithio, mae'r Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol yn helpu cyfarwyddiaethau i sicrhau y caiff cyfrifoldebau ac atebolrwydd dros lywodraethu a rheoli risg eu dogfennu'n ddigonol. Mae'r strategaeth a'r polisi rheoli risg yn gofyn am drefniadau rheoli risg clir ym mha bynnag fodel darparu gwasanaethau a ddefnyddir.

111. Mae Cyngor Caerdydd yn croesawu herio gan gyfoedion, arolygiadau ac ymchwiliadau gan gyrff rheoleiddio fel dull o roi sicrwydd ynghylch darparu gwasanaethau neu fel dull o nodi cyfleoedd i wella.

**Cynllun Gweithredu'r DLIB 2021/22 – Materion Llywodraethu Sylweddol**

112. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn berchen ar Gynllun Gweithredu ar gyfer materion Llywodraethu Sylweddol a chaiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Caiff yr adolygiad ei ategu gan sesiynau her ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth a gadeirir gan y Prif Weithredwr gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn bresennol. Yn ogystal, datblygodd pob cyfarwyddiaeth gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r tri cham corfforaethol a nodwyd ar gyfer 2021/22 ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion ar gyfer y gyfarwyddiaeth unigol.

113. Ystyriodd yr Uwch Dîm Rheoli fod y tri gweithred a nodwyd ar gyfer 2021/22 wedi gweld cynnydd fel y dangosir isod. Fodd bynnag, mae'r tri maes yn parhau i gael eu hystyried fel prif feysydd ffocws ar gyfer gwella llywodraethu ac felly argymhellir eu cario ymlaen i 2022/23 er mwyn cynnal ac adeiladu ar fomentwm y cynnydd a wnaed yn 2021/22. Mae'r Camau Gweithredu a'r Cynnydd hyd yma wedi'u nodi isod.

**Camau Gweithredu**

**Ymestyn a dyfnhau meysydd ymchwilio'r Uwch Dîm Rheoli mewn perthynas â chydymffurfiaeth, risg a chanlyniadau.**

**Cynnydd**

Mae adroddiadau cydymffurfio ar feysydd fel Diogelu, Caffael, Absenoldeb Salwch, Adolygiadau Perfformiad ac argymhellion Archwilio Mewnol wedi'u derbyn yn ystod y flwyddyn. Mae data wedi cael ei anfon ag adroddiadau sy'n galluogi'r Uwch Dîm Rheoli i nodi meysydd gwella ac i sicrhau bod cynnydd lle bo angen yn cael ei gyflawni.

**Cam Gweithredu**

**Ymestyn y sicrwydd ar ansawdd adolygiadau perfformiad drwy gasglu tystiolaeth ar lefel Cyfarwyddiaeth.**

**Cynnydd**

Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi derbyn adroddiadau yn rheolaidd ar gydymffurfio ag adolygiadau Perfformiad. Mae cynlluniau cyflawni'r Gyfarwyddiaeth yn parhau i fod yn ffynhonnell amcanion personol a thîm er y cydnabyddir nad yw hyn yn wir ar bob lefel oherwydd cwmpas a graddfa rhai cyfarwyddiaethau. Mae ansawdd yr adolygiadau perfformiad wedi bod yn faes o ddiddordeb yn sesiynau Her y Prif Weithredwr lle mae cyfarwyddwyr wedi nodi sut mae

perfformiad yn cael ei fesur, a chydnabyddir bod angen gwelliannau pellach i sicrhau bod hyn yn cael ei wreiddio'n llawn ar draws cyfarwyddiaethau unigol.

**Cam Gweithredu**

**Ymgorffori yn yr hunanasesiad ar Sicrwydd y Pum Ffordd o Weithio mewn perthynas â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.**

**Cynnydd**

Diwygiwyd yr Hunanasesiad ar sicrwydd i gynnwys set benodol o gwestiynau oedd yn ymdrin â'r Pum ffordd o Weithio mewn perthynas â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ogystal, nododd cyfarwyddiaethau unigol gamau penodol mewn perthynas â FGA ac maent wedi bod yn monitro eu cynnydd trwy gydol y flwyddyn.

**Cynllun Gweithredu DLlB Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg 2021/22 - Materion Llywodraethu Sylweddol**

114. Roedd dau fater sylweddol a gyflwynwyd o 2020/21 a oedd yn ymwneud â chwblhau'r trosglwyddiadau i is-gronfeydd Ecwiti Byd-eang PPC a Chronfa Ecwiti Carbon Isel a chreu cronfeydd cyfun Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer Emerging Market (EM) Equity. Yn ystod 2021/22 cwblhawyd y ddau gam gweithredu ym mis Gorffennaf 2021 a mis Hydref 2021 yn y drefn honno ac mae’r gwaith o fonitro'r ddwy gronfa wedi'i gynnwys gyda'r broses fonitro ac adolygu rheolaidd. Wrth ystyried heriau llywodraethu sylweddol wrth symud ymlaen, penderfynwyd y bydd gweithred newydd yn cael ei chyflwyno a fydd yn ceisio adeiladu ar brosesau presennol a nodi ffyrdd o wella tryloywder a chadernid penderfyniadau ymhellach mewn perthynas â phenderfyniadau y mae ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl) yn dylanwadu arnynt.

**Ardystio gan Arweinydd y Cyngor a’r Prif Weithredwr**

**Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd**
**Dyddiad:**

**Paul Orders, Prif Weithredwr**
**Dyddiad:**